



AROLWG O BERLLANNAU TRADDODDIADOL

mapio perllannau yng nghymru





perllannau traddodiadol hanes a threftadaeth



Mae perllannau traddodiadol yn rhan o dreftadaeth a chefn gwlad Prydain sy'n agos at galonnau llawer.

Gan ddarparu ffrwythau blasus i gymunedau lleol a manau tawel i'w mwynhau, gellir adnabod perllannau traddodiadol gan y coed ffrwythau maint llawn (safonol) sydd ynddynt, a all fod yn ganrifoedd oed.

Drwy blannu a thrin amrywiaeth fawr o fathau o ffrwythau'n ofalus, mae perllannau traddodiadol yn destun balchder sydd â gwerth diwylliannol sylweddol, gan gynnig awgrymiadau am ein chwaeth o ran bwyd yn y gorffennol.

Defnyddir dulliau dwysedd isel i drin perllannau traddodiadol, megis peidio â defnyddio plaladdwyr a gwrtaith a defnyddio anifeiliaid sy'n pori, yn hytrach na pheiriannau, i dorri'r glaswellt. Mae'r cyfuniad o hen goed a dulliau rheoli naturiol yn cynnig lloches amhrisiadwy i fywyd gwyllt.

Gall ffrwythau gynnig ffynonellau bwyd pwysig i fywyd gwyllt yn yr hydref a'r gaeaf, ac mae blodau'r gwanwyn nid yn unig yn hardd i'w gweld ond hefyd yn ffynhonnell neithdar bwysig i anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae planhigion prin, cennau

a mamaliaid bach yn ffynnu. Mae adar a phryfed yn dod o hyd i fwyd a chysgod mewn pren sy'n pydru ar hen goed.

Ar un adeg roedd y berllan draddodiadol yn olygfa gyffredin yn y dirwedd, ond bellach mae'r cynefin hwn o dan fygythiad difrifol. Dyna'r rheswm dros gynnwys perllannau traddodiadol ar restr Adran 42 o gynefinoedd pwysig iawn o ran gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru (Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006). Mae'r bygythiadau i hen berllannau'n cynnwys esgeulustod, dwysâd amaethyddiaeth a phwysau oherwydd datblygiad tir. Mae archfarchnadoedd wedi bod yn mewnforio ffrwythau rhad o dramor ers amser hir, ac mae hyn wedi achosi i gynefinoedd perllannau ddod yn economaidd anhyfyw ac yn fwyfwy prin.

ffraith graidd

- mae arwynebedd perllannau traddodiadol yng Nghymru wedi lleihau'n fawr ers canol yr ugeinfed ganrif.
- Mae perllannau traddodiadol yng Nghymru wedi dirywio'n sylweddol. Rhwng 1940 a 1990 collwyd tua 86% o arwynebedd perllannau yng Ngwent.

mapio perllannau yng Nghymru

Mae'r People's Trust for Endangered Species (PTES) yn cydgyssylltu prosiect i fapio perllannau traddodiadol Cymru. Mae perllannau'n fannau gwych ar gyfer bioamrywiaeth ac yn cynnal amrywiaeth fawr o fywyd gwyllt gan gynnwys llawer o rywogaethau sy'n brin neu'n anfynych yn genedlaethol, gan gynnwys y chwilen emrallt.

Gall fod yn anodd dod o hyd i berllannau traddodiadol weithiau. Nid yw mapiau'r Arolwg Ordnans yn dynodi oedran na chyflwr perllannau, ac mae'n bosibl bod rhai gweddillion perllannau wedi cael eu hanwybyddu'n llwyr.

Nod y prosiect hwn yw creu rhestr o berllannau traddodiadol yng Nghymru a fydd yn llinell sylfaen ar gyfer yr holl waith cadwraethol yn y dyfodol. Mae PTES yn galw ar gannoedd o wirfoddolwyr i helpu i ddod o hyd i'r perllannau hyn a gwneud arolwg ohonynt. Bydd arolwg o berllan fel arfer yn cofnodi'r rhywogaethau, a nifer a chyflwr y coed ffrwythau. Gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Ar ôl ei chwblhau, caiff y rhestr ei chyhoeddi ar y rhyngwyd a bydd ar gael i bawb. Mae gwybod ble mae perllannau'n hanfodol ar gyfer cadwraeth y cynefin pwysig hwn a'r amrywiaeth enfawr o rywogaethau sy'n gysylltiedig ag ef.



cymerwch ran heddiw

Rydym yn chwilio am help gan wirfoddolwyr lleol a thirfeddianwyr, grwpiau perllannau, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, cynghorau plwyf a cholegau amaethyddol.



1. Ydych chi'n berchen ar berllan leol, yn rheoli perllan leol neu'n gwybod am berllan leol y dylid ei chynnwys yn ein prosiect?

2. Oes gennych chi amser i'w sbario i helpu i wneud arolwg o berllannau traddodiadol yn eich ardal chi? Nid oes angen profiad a byddwn yn darparu pecynnau hyfforddi.

I gymryd rhan, ffoniwch 020 7498 4533 neu anfonwch neges e-bost at Lauren@ptes.org neu Steve@ptes.org

Diolch yn fawr



y chwilen emrallt

Un o'n chwilog prinnaf yw'r chwilen emrallt. Mae'n dibynnu ar bren marw a phren sy'n pydru ac mae'n gyfyngedig bron yn llwyr i berllannau traddodiadol. Mae ei chynefin yn prysur brinhau.

Ymddengys mai prif ardal ddsbarthiad y chwilen emrallt yw rhanbarthau Lloegr lle mae ffrwythau'n cael eu tyfu, yn cynnwys Sir Gaerwrangon, Sir Gaerloyw a Sir Henffordd. Yn y gorffennol roedd dosbarthiad y chwilen hon yn llawer ehangach ac o gofio pa mor agos yw'r ardal graidd hon i Gymru, mae'n bosibl y ceir y chwilen emrallt mewn siroedd cyfagos megis Sir Fynwy ond nad oes neb wedi'i hadnabod. Dyna pam mae mor bwysig codi ymwybyddiaeth o'r rhywogaeth brin hon.

Mae chwilog mewn oed yn hardd, â lliw gwyrdd symudliw trawiadol. Dim ond am tua 4 i 6 wythnos maent yn byw ac maent yn fwyaf tebygol o gael eu gweld yn hedfan o gwmpas neu'n glanio ar flodau megis efwr ar ddiwrnodau heulog, poeth ym mis Gorffennaf a mis Awst.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr oedolion yn paru a bydd y benywod yn dodwy eu hwyau mewn pren sy'n pydru ar hen goed ffrwythau. Yna mae'r larfau, sy'n bwydo ar y pren pwr, yn cymryd dwy flynedd i ddatblygu'n oedolion.

Mae'n well ganddynt berllannau lle ceir coed ffrwythau aeddfed rhwng 50 ac 80 mlwydd oed. Mae'n hawdd iawn i'r safleoedd hyn ddiffannu o ganlyniad i gael eu torri neu eu clirio, yn enwedig os yw'r coed yn cyrraedd diwedd eu hoes gynhyrchiol.

Bydd yr arolwg o berllannau traddodiadol yn helpu canfod safleoedd pwysig ar gyfer y chwilen emrallt y gellir eu rheoli neu eu hadfer er mwyn diogelu dyfodol y rhywogaeth.

Lluniau: Andrew Curran, Matt Smith, Keith Alexander, Harry Green, PTES



people's trust for
**endangered
species**



TRADITIONAL ORCHARD SURVEY

mapping orchards in wales





traditional orchards history & heritage



Traditional orchards are a much loved part of our British heritage and countryside.

Providing local communities with delicious fruit and peaceful places to enjoy, traditional orchards can be recognised by the presence of full-sized (standard) fruit trees which may be centuries old.

Through the careful planting and cultivation of a great range of fruit varieties, traditional orchards are a source of pride and have significant cultural value, holding clues to our past culinary tastes.

Traditional orchards are cultivated using low-intensity methods such as the absence of pesticides and fertilisers, and the use of grazing animals instead of machines for mowing. The combination of old trees and natural management provides an invaluable refuge for wildlife.

Fruits can provide important food sources in autumn and winter for wildlife and spring blossom is not only beautiful to see but an important nectar source

for invertebrates. Rare plants, lichens and small mammals flourish. Birds and insects find food and shelter amongst the decaying wood of old trees.

Once a common sight within the landscape, the traditional orchard habitat is now under serious threat which is the reason that traditional orchards are now included on the Section 42 list of habitats of principal importance for conserving biodiversity in Wales (Natural Environment and Rural Communities Act, 2006). Threats to old orchards include neglect, intensification of agriculture and pressure from land development. Supermarkets have long been importing cheap fruit from overseas which has led to orchard habitats becoming economically unviable and increasingly rare.

core facts

- historically we have grown 2,000 varieties of cooking & eating apple in Britain.
- traditional orchards in Wales have declined sharply. Approximately 86% of the orchard area in Gwent was lost between 1940 and 1990.

mapping Welsh orchards

The People's Trust for Endangered Species (PTES) is co-ordinating a project to map the traditional orchards of Wales. Orchards are hotspots for biodiversity and support a wide range of wildlife including many species which are nationally rare or scarce, including the noble chafer beetle.

Locating traditional orchards can sometimes be difficult. Ordnance survey maps give no indication of the age or condition of orchards, and some remnant orchard sites may have been overlooked altogether.

The aim of this project is to create an inventory of traditional orchards in Wales which will form a baseline from which to guide all future conservation work. PTES is calling on hundreds of volunteers to help both locate and survey these orchards. A typical orchard survey will record the species, number and condition of the fruit trees. This can be carried out at any time of year.

On completion, the inventory will be published on the internet and available to everyone. Knowing where orchards are is essential for the conservation of this important habitat and the vast array of species that are associated with it.



please get involved today

We need the help of local volunteers and land owners, orchard groups, wildlife trusts, parish councils and agricultural colleges.



1. Do you own, manage or know of a local orchard that should be included in our project?
2. Do you have time to spare to help survey traditional orchards in your local area? No experience is necessary and we will provide training packs.

to get involved please call 020 7498 4533 or email Lauren@ptes.org or Steve@ptes.org

thank you



the noble chafer

The noble chafer beetle is one of our rarest beetles. Dependent on dead and decaying wood and restricted almost entirely to traditional orchards, their habitat is fast becoming scarce.

The species is confined to Gloucestershire, Herefordshire and Worcestershire and parts of the New Forest and Oxfordshire. Excitingly populations have recently been discovered in Kent and Buckinghamshire. Historically the species was also known to exist in Essex, Northamptonshire, Devon & Cumbria.

The handsome adult beetles are a striking iridescent green. They only survive for about 4 to 6 weeks and are most likely to be seen flying around or visiting flowers such as hogweed on hot, sunny days in July and August.

During this time, adult beetles will mate and the females will lay their eggs in the decaying wood of old fruit trees. The larvae, which feed on the rotting wood, then take 2 years to develop into adults.

They exhibit a preference for orchards that contain mature fruit trees between 50 and 80 years old. These sites are very vulnerable to removal or clearance, particularly if the trees are reaching the end of their productive life.

The traditional orchard survey will help to identify important sites for the noble chafer that can be managed or restored to safeguard the species' future.

Images: Andrew Curran, Matt Smith, Keith Alexander, Harry Green, PTES

